ATODIAD 1

**Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Leol: Canlyniadau Ymgynghoriad Cyhoeddus**

| | |
|---|---|
| **Cyfnod Ymgynghori:** | 6 wythnos rhwng 25/03/2024 – 06/05/2024 |
| **Dogfennau a gyflwynwyd:** | Prif ddogfen y Strategaeth (Drafft)<br>Atodiad i'r brif ddogfen (Drafft)<br>Crynodeb o brif ddogfen y Strategaeth (Drafft)<br>Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Drafft)<br>Asesiad Amgylcheddol Strategol (Drafft) |
| **Ffurf:** | Holiadur |
| **Lleoliad:** | Ar lein a chopïau ar gael yn Siopau Gwynedd ac ym mhob llyfrgell (Pob ymateb wedi'i derbyn ar-lein) |
| **Nifer cyfranogwyr:** | 77 (gan gynnwys 1 Corff Cyhoeddus di-enw, 1 Busnes ac 1 Cyngor Cymuned) |
| **Dulliau hyrwyddo:** | Cyfryngau cymdeithasol Cyngor Gwynedd<br>Gwefan Cyngor Gwynedd<br>Rhannu a rhanddeiliaid amlwg<br>Rhannu a'r Panel Trigolion<br>Hysbysebion yn y papurau lleol<br>Hysbysebion mewn papurau bro (os yn cyd-fynd a dyddiad chyhoeddi) |

## Crynodeb

Wedi eu dangos isod mae canlyniadau y 5 cwestiwn yn yr holiadur ynglŷn a'r Strategaeth Ddrafft a hefyd cwestiynau ar gyfer cynnwys y ddwy ddogfen amgylcheddol cysylltiedig.

Ar y cyfan mae'r ymateb i'r Strategaeth ddrafft yn gymysg a nid yw'r canlyniadau yn awgrymu cefnogaeth amlwg i'r ddogfen. Wrth edrych drwy'r canlyniadau rhaid ystyried fod y niferoedd sydd wedi agor y dogfennau ymgynghori yn gymharol isel – mae'r nifer sydd wedi agor y brif ddogfen yn tua hanner y nifer sydd wedi agor yr arolwg ar-lein, gyda'r niferoedd ar gyfer y dogfennau eraill yn is eto (e.e. tua 10% wedi agor yr atodiad i'r brif ddogfen a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol o'i gymharu a'r niferoedd sydd wedi agor yr holiadur).

Wedi adolygu'r sylwadau sydd wedi eu cynnig o fewn yr ymatebion mae rhai themâu yn cael eu ail-adrodd rhwng y cyfranogwyr, gan gynnwys:

- Diffyg cynllun gweithredu amlwg o fewn y ddogfen
- Pryder ynglŷn ag effeithiau newid hinsawdd a gallu'r Cyngor i ymateb
- Pryder ynglŷn ac ariannu a blaenoriaethu gwaith rheoli risg llifogydd
- Pryder fod gwahanol awdurdodau ddim yn cyd-weithio i reoli risgiau
- Ddim digon o bwyslais ar reoli risg llifogydd naturiol yn yr ucheldiroedd
- Pryderon ynglŷn a datblygiadau anaddas yn gwaethygu'r sefyllfa


Yn ogystal a'r uchod mae sawl ymateb yn cyfeirio at yr angen i gynnal draeniau dwr wyneb ac i agor cyrsiau dŵr er mwyn cynyddu capasiti. Mae materion lleol hefyd yn cael eu cynnwys o fewn yr ymatebion er ein bod wedi gofyn i gyfranogwyr gyfeirio pryderon o'r fath i blwch post penodol.


Mae dadansoddiad o'r ymatebion hefyd wedi'i darparu isod. Ar y cyfan ni chredir fod yr ymatebion y holiadur yn gwneud achos i wneud newidiadau sylweddol i'r Strategaeth na'r dogfennau cysylltiedig, fodd bynnag mae rhai cynigion wedi ei gwneud ar gyfer adolygu neu addasu y dogfennau er mwyn cyfarch y sylwadau a fynegwyd.

## Canlyniadau


***Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Leol***


*<u>Beth yw eich barn am yr Amcanion Strategol sydd wedi eu rhestru yn y Strategaeth Leol?</u>*




ATODIAD 1








Mae cefnogaeth glir i'w weld uchod ar gyfer yr amcanion sydd wedi cael eu llunio ar gyfer y Strategaeth. O'r ymatebion sy'n anghytuno a'r amcanion mae sylw yn cael ei wneud fod yr amcanion ar lefel rhy uchel a ddim yn rhoi hyder fod y Cyngor am weithredu i fynd i'r afael a thrafferion llifogydd.

EG roedd yr amcanion wedi'i rhestru o fewn yr arolwg a felly dim angen i'r cyfranogwyr chwilio amdanynt.

ATODIAD 1

*A ydych o'r farn fod y Strategaeth Leol yn gwneud digon i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd yn y dyfodol?*





Ymateb cymysg i'r cwestiwn uchod er fod sylw drwy gydol y Strategaeth ynglŷn ag effeithiau newid hinsawdd (Rhan 3, Rhan 9) a'r dulliau a fwriedir i adnabod a rheoli risgiau cysylltiedig yn y dyfodol (gan gynnwys Amcan 1: Camau Gweithredu 1.1; Amcan 2 Camau Gweithredu 2.3, 2.4).

Mae'r sylwadau a gynnigir yn yr ymatebion yn gymysg a ddim wastad yn gwbl berthnasol a'r cwestiwn sydd yn cael ei ofyn ond mae yn amlwg fod pryder o fewn cyfranogwyr ynglŷn ag effeithiau newid hinsawdd a gallu y Cyngor i reoli risgiau cysylltiedig yn y dyfodol.

**Cynnig:** Adolygu y Strategaeth er mwyn sicrhau fod awydd y Cyngor i reoli effeithiau newid hinsawdd o fewn eu gallu yn gwbwl amlwg.


*Ydych o'r farn fod yr Amcanion Strategol wedi'u cefnogi gan Gamau Gweithredu priodol?*




Ymateb cymysg i'r cwestiwn uchod. Mae'r sylwadau yn awgrymu teimlad o fewn y cyfranogwyr nad ydi'r ddogfen yn adnabod camau neu gynllun gweithredu pendant i reoli risgiau ar gyfer y dyfodol. Mae tudalennau 55-61 y brif ddogfen yn rhestru yn benodol camau gweithredu sy'n berthnasol i'r 5 amcan strategol a mae rhaglenni gwaith mewndirol ac arfordirol wedi eu rhestru yn atodiad y brif ddogfen (tud 22-27 a 56-60).

**Cynnig:** Mae'r nifer cymharol isel sydd wedi agor y dogfennau ymgynghori o bosib yn rhannol yn egluro yr ymateb i'r cwestiwn hwn ond mae'r adborth hefyd yn awgrymu fod y cyhoedd yn awyddus i ddeall be sy'n cael ei wneud i reoli risgiau llifogydd ac erydiad arfordirol a felly awgrymir adolygu dogfen y Strategaeth er mwyn sicrhau fod cyfeiriadau tuag at raglenni gwaith yn gwbwl amlwg, a hefyd fod cyfeiriadau tuag at raglenni gwaith diweddaraf yn y dyfodol mewn lle amlwg i'r darganfod ar y wefan.


*<u>Ydi'r Strategaeth Leol yn amlygu yn ddigon clir rolau a chyfrifoldebau pan ddaw i reoli risg llifogydd ac erydiad arfordirol?</u>*




Er fod yr ymateb i'r cwestiwn uchod yn positif ar y cyfan mae'r adborth yn y sylwadau yn awgrymu nad oes gan y cyhoedd ffudd fod gwahanol awdurdodau yn cyd-weithio i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd a rheoli risgiau ar gyfer y dyfodol.

**Cynnig:** Mae Camau Gweithredu 2.1 A a B (tud 57 yn y brif ddogfen) yn cyfeirio ar fwriad y Cyngor i gyd-weithio efo Awdurdodau Rheoli Risg eraill megis CNC a DCWW. O ystyried adborth yr holiadur dylir adolygu y Strategaeth er mwyn sirchau fod ein awydd ar gyfer cyd-weithio wedi ei gyfleu yn glir, a hefyd bosib amlygu rhai engrheifftiau o cyd-weithio llwyddianus diweddar.

*<u>Beth yw eich barn am y dull sydd wedi ei ddefnyddio i adnabod risgiau llifogydd ac erydiad arfordirol ar draws Gwynedd?</u>*





Mae'r ymateb i'r cwestiwn uchod yn positif ar y cyfan. O bosib oherwydd ei fod yn gymharol dechnegol does ddim sylwadau o fewn yr ymatebion sy'n berthnasol i'r cwestiwn hwn sydd angen ei ystyried yn bellach.


ATODIAD 1

***Asesiad Amgylcheddol Strategol***

*A ydych o'r farn fod yr AAS yn gynhwysfawr o ran y materion amgylcheddol sy'n cael eu trafod?*




*Ydych o'r farn fod y camau lliniaru a restrwyd yn yr AAS yn ddigonol er mwyn rheoli effeithiau amgylcheddol yn effeithiol?*





Mae'r ymateb i'r cwestiynnau uchod yn gymysgar y cyfan. O bosib oherwydd ei fod yn gymharol dechnegol does ddim sylwadau o fewn yr ymatebion sy'n berthnasol i'r ddogfen na chwaith y cwestiynnau sy'n cael eu gofyn cwestiwn hwn sydd angen ei ystyried yn bellach. Rhaid hefyd ystyried y nifer isel o gyfranwyr sy'n debygol o fod wedi adolygu y ddogfen yn seiliedig ar y rhifoedd sydd wedi agor y linc.


ATODIAD 1

***Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd***

*A ydych o'r farn fod yr asesiad yn gynhwysfawr o ran y safleoedd dynodedig sy'n cael eu trafod?*




*Ydych o'r farn fod y camau lliniaru a restrwyd yn yr HRA yn ddigonol er mwyn rheoli effeithiau niweidiol ar safleoedd dynodedig?*




Mae'r ymateb i'r cwestiynnau uchod yn gymysgar y cyfan. O bosib oherwydd ei fod yn gymharol dechnegol does ddim sylwadau o fewn yr ymatebion sy'n berthnasol i'r ddogfen na chwaith y cwestiynnau sy'n cael eu gofyn cwestiwn hwn sydd angen ei ystyried yn bellach. Rhaid hefyd ystyried y nifer isel o gyfranwyr sy'n debygol o fod wedi adolygu y ddogfen yn seiliedig ar y rhifoedd sydd wedi agor y linc.